

## Awgrymiadau ar gyfer Busnesau Cymdeithasol sy'n chwilio am Gymorth Ariannol

Rydym yn gwybod bod pethau'n mynd yn anodd a bod angen i fusnesau baratoi ar gyfer y cyfnodau ariannol heriol sydd i ddod dros yr wythnosau a'r misoedd nesaf yn sgil argyfwng Covid-19. Mae cynlluniau cymorth ariannol newydd yn cael eu datblygu i helpu'r sector trwy'r cyfnodau digyngsail hyn, ond er mwyn gwneud cais amdanynt, bydd yn rhaid i fusnesau fod yn barod, ynghyd ag arddangos sut y maent yn gweithredu mewn modd rhagweithiol ac yn rheoli eu cyllid eu hunain.

Dyma ein hawgrymiadau ar gyfer busnesau cymdeithasol sydd am fanteisio ar gyllid arbenigol mewn perthynas â Covid-19:

**Cyfrifwch** sut y bydd Covid-19 yn effeithio ar eich llif arian, gan gymharu eich rhagamcanion o ran masnach dros y 3, 6, 9 a 12 mis nesaf â masnach yn y gorffennol. <https://businesswales.gov.wales/starting-up/cy/rheoli-eich-arian/rhagamcan-llif-arian>

**Aseswch** beth fydd y bwlch yn eich cyllid, faint y bydd arnoch ei angen mewn gwirionedd, ac am ba hyd. Mae'n bwysig iawn eich bod ond yn gwneud cais am yr hyn y mae arnoch ei angen! Gallai benthyca ychydig yn llai neu ychydig yn fwy arwain at ganlyniadau difrifol, ac efallai y bydd rhai cyllidwyr yn rhoi terfyn ar werth cyfunol y cymorth ariannol y gellwch fanteisio arno. Felly, ystyriwch hyn yn ofalus!

**Dangoswch** pa gamau sydd wedi cael eu cymryd i leihau'r costau a mwyhau'r incwm. Gallai cymryd camau syml tebyg i siarad â'ch cyflenwyr, trefnu gorddrafftiau, mynd ar drywydd anfonebau sy'n ddyledus a rhoi staff ar seibiant helpu i leihau'r bwlch. Mae gan ein taflenni ffeithiau, sy'n cynnwys canllaw ar ddadelfennu eich llif arian, ragor o fanylion am sut y mae ailfodelu eich cyllid. <https://cymru.coop/covid-19-factsheets/>

**Manteisiwch** ar gymorth a chynlluniau. Bydd y cyllidwyr a'r buddsoddwyr am weld eich bod yn gwneud y mwyaf o'r cymorth sydd ar gael yn rhan o gynlluniau Llywodraeth y Deyrnas Unedig a Llywodraeth Cymru. <https://cymru.coop/wp-content/uploads//2020/03/Finance-factsheet-Welsh.pdf>


**Rhagamcanwch** sut y bydd masnach ac incwm yn dychwelyd. Bydd y cyllidwyr a'r buddsoddwyr yn disgwyl gweld rhagamcanion ar gyfer llif arian a chynlluniau busnes syml a fydd yn egluro sut yr ydych yn mynd i oroesi'r 12 mis nesaf, ynghyd â sut y byddwch yn addasu eich model busnes.

# Busnes Cymdeithasol Cymru

## Social Business Wales

Yn fentrus gadarnhaol

Positively enterprising



**Ystyriwch** ryddhau cronfeydd wrth gefn i'r busnes. Mae'r rhan fwyaf ohonom wedi datblygu cronfeydd wrth gefn ar gyfer diwrnodau glawog, ac mae'n ymddangos bod ein diwrnodau glawog wedi cyrraedd ar yr un pryd. Felly, ystyriwch ryddhau rhywfaint o'ch cronfeydd wrth gefn, lle bo hynny'n bosibl. Mae'n bwysig bod y cronfeydd wrth gefn yn cael eu defnyddio mewn modd cywir a gofynnwch am arweiniad proffesiynol, lle bo angen.

**Amlinellwch** a manylwch ar eich hanes ariannol blaenorol er mwyn dangos eich bod wedi cynnal busnes hyfyw cyn yr argyfwng hwn. Gellir darparu cyfrifon rheoli a chyfrifon y blynyddoedd blaenorol fel tystiolaeth o hyn. Felly, sicrhewch eu bod yn barod i'w trosglwyddo!

**Lluniwch** broffiliau o bersonél busnes allweddol ac aelodau o'r bwrdd. Bydd y cyllidwyr a'r buddsoddwyr am gael gwybodaeth am y rheiny sy'n gwneud penderfyniadau yn eich sefydliad, ynghyd â'ch model/strwythur llywodraethu. Ac ein hawgrym olaf ...

**Mynnwch yr wybodaeth ddiweddaraf** am gyhoeddiadau a chynlluniau newydd. Mae pethau'n datblygu'n gyflym, felly sicrhewch fod rhywun yn eich sefydliad yn cael y dasg o chwilio am wybodaeth, gohebiaeth a datblygiadau newydd mewn perthynas â chynlluniau newydd a dyddiadau cau, ac ati, a hynny er mwyn eich galluogi i wneud y mwyaf o'r cymorth ariannol sydd ar gael i'ch busnesau cymdeithasol.

I gael taflenni ffeithiau, weminarau a dolenni defnyddiol, ewch i ymweld â'n hwb Covid-19 (<https://wales.coop/covid-19-hub/>) yn rheolaidd.

Os hoffech sgwrsio ag un o'n Cynghorwyr Busnes, ffoniwch 0300 111 5050 neu anfonwch neges e-bost i [sbwenquiries@wales.coop](mailto:sbwenquiries@wales.coop) a **gallwn drefnu i'ch ffonio nôl**.